Arolygiaeth Gofal Cymru
Care Inspectorate Wales

# Adroddiad Arolygu

**Cylch Meithrin Llangynnwr**

**Ysgol Gynradd Gymunedol Llangynnwr**
**Lôn Penymorfa**
**Caerfyrddin**
**SA31 2NN**

**This report is also available in English**

**Mae'r adroddiad hwn hefyd ar gael yn Saesneg**



## Dyddiad Cwblhau'r Arolygiad

16/10/2024

***Llywodraeth Cymru © Hawlfraint y Goron 2024.***
*Cewch ddefnyddio ac ailddefnyddio'r wybodaeth sydd yn y cyhoeddiad hwn (ac eithrio'r logos) yn ddi-dâl, mewn unrhyw fformat neu gyfrwng, o dan delerau'r Drwydded Llywodraeth Agored. Gallwch weld y Drwydded Llywodraeth Agored ar wefan yr Archifau Gwladol, neu gallwch ysgrifennu at The Information Policy Team, The National Archives, Kew, London, TW9 4DU, neu anfon e-bost i: psi@nationalarchives.gov.uk*
*Rhaid i chi atgynhyrchu ein deunydd yn fanwl gywir a pheidio â'i ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol.*

# Cylch Meithrin Llangynnwr

| | |
|---|---|
| Y math o ofal a ddarperir | Gofal Dydd Plant<br>Gofal Dydd Llawn |
| Darparwr Cofrestredig | Cylch Meithrin Llangynnwr |
| Lleoedd cofrestredig | 18 |
| Iaith y gwasanaeth | Cymraeg |
| Arolygiad blaenorol Arolygiaeth Gofal Cymru | Cliciwch neu tapiwch yma i fewnbynnu testun.Dyma ei arolygiad cyntaf ers y cofrestriad. |
| A yw hwn yn wasanaeth Dechrau'n Deg? | Ydy |
| A yw'r gwasanaeth hwn yn hyrwyddo'r iaith Gymraeg a diwylliant Cymru? | Mae'r gwasanaeth hwn yn rhagweld, yn nodi ac yn diwallu anghenion Cymraeg a diwylliannol pobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth, neu a all ei ddefnyddio. |

| | |
|---|---|
| **Llesiant** | **Da** |
| **Gofal a Datblygiad** | **Da** |
| **Yr Amgylchedd** | **Digonol** |
| **Arweinyddiaeth a Rheolaeth** | **Digonol** |

I gael rhagor o wybodaeth am raddau, gweler diwedd yr adroddiad hwn

## Crynodeb

Mae'r plant wedi setlo ac yn hapus i gymryd rhan yn y gweithgareddau sydd ar gael iddynt. Mae bron pob un ohonynt wedi meithrin cydberthnasau agos â'u cyfoedion a gyda'r aelodau o staff. Mae'r plant yn cael cyfleoedd i gyfathrebu a gwneud dewisiadau, a chaiff sylw ei roi bob amser i lais y plentyn.

Mae bron pob aelod o'r staff yn dilyn polisïau a gweithdrefnau i hyrwyddo llesiant, diogelwch a ffyrdd iach o fyw. Mae'r staff yn annog y plant i fynegi eu hunain ac yn rhyngweithio â nhw mewn modd gofalgar a chadarnhaol. Maent yn cynllunio'n briodol i fodloni gofynion a diddordebau'r plant.

Mae'r staff yn darparu amgylchedd diogel a glân. Ar y cyfan, mae gan y bobl sy'n rhedeg y gwasanaeth fesurau addas i gadw'r amgylchedd yn ddiogel. Maent yn cynnig sylfaen adnoddau sy'n bodloni gofynion unigol a chamau datblygiad y plant. Mae ardal awyr agored briodol ar gael i'r plant ei defnyddio bob dydd.

Ar y cyfan, mae'r bobl sy'n rhedeg y gwasanaeth yn cydymffurfio â'r rhan fwyaf o'r rheoliadau a llawer o ofynion perthnasol y Safonau Gofynnol Cenedlaethol. Maent yn cadw'r cofnodion a'r tystysgrifau mewn trefn. Mae'r staff yn cael cyfleoedd da i ddatblygu'n broffesiynol. Mae partneriaethau da ar waith.

## Llesiant — Da

Mae'r plant yn hapus ac wedi meithrin cydberthnasau cadarnhaol â'r staff a'u cyfoedion. Maent yn egnïol ac yn dangos eu bod yn mwynhau eu chwarae. Mae ganddynt ymdeimlad o berthyn, ac maent yn amlwg yn gyfarwydd â'r drefn o ddydd i ddydd. Mae’r plant yn cyrraedd y lleoliad yn hapus. Maent yn mwynhau'r rhyddid i ddewis ardaloedd chwarae ac adnoddau yn yr ystafell ac yn yr ardal chwarae awyr agored. Er enghraifft, clywsom y plant yn gofyn am y blwch blociau. Mae'r plant yn dysgu i ddeall eu teimladau ac i ddangos boddhad yn yr hyn y maent yn ei wneud. Er enghraifft, mae'r plant yn gwenu ac yn sgwrsio'n hapus â'i gilydd yn ystod amser byrbryd. Mae'r plant yn mynegi eu teimladau yn hyderus yn ystod amser cofrestru.

Mae gan y plant lais cryf ac maent yn cael cyfleoedd cadarnhaol i wneud dewisiadau a phenderfyniadau. Er enghraifft, gall y plant ddewis gweithgareddau a symud o amgylch y lleoliad. Yn ystod amser cinio, roedd un o'r plant yn dymuno aros yn y brif ystafell yn hytrach na gwylio'r teledu a chafodd ganiatâd i wneud hyn. Maent yn cyfathrebu'n hyderus â'r staff a'u cyfoedion. Caiff eu dymuniadau, eu teimladau a'u hanghenion eu hystyried. Er enghraifft, dywedodd plentyn wrth aelod o'r staff nad oedd eisiau bwyta cig i ginio, a chafodd hyn ei gydnabod. Caiff anghenion a dewisiadau unigol y plant eu hystyried. Er enghraifft, gofynnodd plentyn i'r staff yn hyderus am gymorth i wisgo ei esgidiau cyn mynd allan i chwarae. Mae'r plant yn teimlo ymdeimlad o gyflawniad. Maent yn gwenu wrth gael eu canmol am helpu i arllwys y diodydd yn ystod amser byrbryd.

Mae bron pob un o'r plant yn rhyngweithio'n gadarnhaol ac yn agored. Maent yn gweithio gyda'i gilydd ac yn cymdeithasu mewn modd cyfeillgar. Maent yn dangos parch a gofal tuag at eraill. Er enghraifft, ar ôl gweithgaredd gludo, clywsom un plentyn yn dweud wrth blentyn arall i wneud yn siŵr ei fod wedi torchi ei lewys er mwyn golchi ei ddwylo. Mae'r plant yn cymryd eu tro ar y teganau reidio yn yr awyr agored ac yn cael eu hannog gan y staff. Mae'r rhan fwyaf o'r plant yn deall sut i gymryd eu tro, aros, a rhannu. Mae'r rhyngweithio rhwng y plant a'r staff yn dangos bod y plant yn datblygu sgiliau cyfathrebu da. Yn ystod amser chwarae dan do, gwelsom grŵp bach o blant ac aelod o'r staff yn chwarae gyda'i gilydd, gan enwi siapiau a lliwiau cyn gosod siapiau yn y didolwr siapiau. Mae'r rhan fwyaf o'r plant yn gweithio gyda'i gilydd i dacluso'r adnoddau ar ddiwedd y sesiwn.

Mae'r rhan fwyaf o'r plant yn ddysgwyr gweithgar ac maent yn cymryd rhan yn frwdfrydig mewn gweithgareddau. Maent yn dangos diddordeb a chyffro wrth iddynt ddefnyddio deunyddiau gwahanol a bwyd go iawn i greu gwaith celf yn seiliedig ar y thema. Mae lluniau a samplau o'u gwaith yn dangos eu bod yn mwynhau amrywiaeth o gyfleoedd da y tu mewn ac yn yr awyr agored. Er enghraifft, archwilio sleim, toes chwarae, paru rhifau a lliwiau ac adeiladu cuddfannau chwarae. Mae'r plant yn datblygu eu sgiliau annibyniaeth drwy ddefnyddio'r toiled, golchi a sychu eu dwylo, arllwys diodydd a thrwy fwydo eu hunain.

| Gofal a Datblygiad | Da |
| --- | --- |

Yn ystod yr ymweliad arolygu, roedd sawl aelod o'r staff yn gymharol newydd i'w rolau. Maent yn ymwybodol o'r polisïau a'r gweithdrefnau ar gyfer hyrwyddo ffyrdd iach o fyw, gweithgareddau corfforol, diogelwch a llesiant personol, ac mae bron pob un ohonynt yn eu rhoi ar waith yn effeithiol. Ar y cyfan, maent yn dilyn arferion glanhau a hylendid effeithiol. Er enghraifft, diheintio'r byrddau cyn ac ar ôl amser byrbryd, golchi eu dwylo'n rheolaidd, yn ogystal â sicrhau bod y teganau a'r adnoddau yn cael eu glanhau a'u diheintio'n rheolaidd. Maent yn sicrhau bod cofnodion ysgrifenedig ar gael i ddangos bod yr ardaloedd, y teganau a'r adnoddau yn cael eu glanhau'n rheolaidd. Mae'r staff yn sicrhau eu bod yn defnyddio cyfarpar diogelu personol (PPE) priodol er mwyn paratoi bwyd i'r plant. Fodd bynnag, nid yw pob aelod o'r staff yn gwneud hyn wrth newid cewynnau. Gwnaethom drafod hyn â'r staff ar ôl iddynt newid cewyn a thynnodd y staff sylw at y ffaith eu bod yn ymwybodol o'r angen i wisgo ffedog. Gwnaethom hefyd drafod cyflwr y mat newid cewynnau a chawsom wybod bod mat newydd wedi cael ei archebu yn dilyn yr ymweliad.

Mae pob aelod o'r staff wedi cwblhau hyfforddiant diogelu a hyfforddiant hylendid bwyd. Mae nifer ohonynt wedi cwblhau hyfforddiant cymorth cyntaf neu wrthi'n cwblhau'r hyfforddiant gloywi. Mae'r staff yn nodi risgiau ac yn eu rheoli'n gyson, er enghraifft drwy sicrhau bod y plant yn cymryd gofal wrth fwyta a thrwy aildrefnu lleoliad yr adnoddau er mwyn sicrhau na fyddent yn cwympo ar eu pennau. Maent yn darparu byrbryd iach o ffrwythau a thost, ac mae'r plant yn mwynhau bwyta, sgwrsio a chymdeithasu â'u cyfoedion yn ogystal â'r staff wrth y bwrdd. Dangosodd trafodaethau â'r staff eu bod yn deall yr angen am arferion diogelu da.

Mae'r staff yn gweithredu mewn ffordd gyson ac yn ymateb yn dda i safbwyntiau'r plant ac yn eu parchu. Maent yn rhyngweithio'n dda ac yn dangos anogaeth, cynhesrwydd a charedigrwydd, yn ogystal â sensitifrwydd i anghenion a phrofiadau'r plant unigol. Maent yn adnabod y plant yn dda ac yn gwybod pryd i ymyrryd i'w hatgoffa am bethau penodol. Er enghraifft, mae'r staff yn atgoffa'r plant o'r angen i rannu. Dywedodd yr arweinydd wrthym ei fod yn ystyried diddordebau a cheisiadau'r plant wrth gynllunio a chyflwyno gweithgareddau i wella dysgu'r plant. Gwelsom dystiolaeth o hyn yn y cynlluniau 'yn y foment'.

Ar y cyfan, mae'r staff yn cynnig amrywiaeth o weithgareddau chwarae a dysgu sy'n addas ar gyfer oedran a datblygiad y plant y maent yn gofalu amdanynt. Fodd bynnag, nid oedd llawer o weithgareddau wedi cael eu cynllunio yn ystod yr arolygiad. Mae'r staff wedi dechrau'r gwaith o gynllunio'r camau nesaf ac yn adolygu cynnydd y plant yn rheolaidd. Mae ganddynt systemau ar waith i ddarparu gofal a chyfleoedd addas i blant ag anghenion ychwanegol ac maent yn cymryd camau rhagweithiol i sicrhau ymyriadau cynnar o ran rhoi cymorth ac arweiniad ychwanegol.

## Yr Amgylchedd Digonol

Mae'r gwasanaeth yn gweithredu mewn ysgol gynradd. Mae'n darparu amgylchedd glân, cynnes a diogel. Mae'r bobl sy'n rhedeg y gwasanaeth yn sicrhau bod yr amgylchedd ffisegol yn ddiogel, ond mae angen gwneud gwaith cynnal a chadw ar yr amgylchedd dan do mewn perthynas â'r paent. Maent yn sicrhau y caiff asesiadau risg dyddiol a chyffredinol, yn ogystal ag asesiadau risg tân, eu cynnal, ond nid oes unrhyw asesiadau risg penodol ar waith ar gyfer yr ardaloedd awyr agored a'r gweithgareddau. Mae'r bobl sy'n rhedeg y gwasanaeth yn sicrhau bod ymarferion tân rheolaidd yn cael eu cynnal a'u cofnodi'n effeithiol. Fodd bynnag, nid yw'r rhain yn cael eu cynnal gyda phob un o'r plant sy'n mynychu'r gwasanaeth.

Mae'r bobl sy'n rhedeg y gwasanaeth yn sicrhau diogelwch y plant a'r lleoliad gyda llyfr ymwelwyr, ynghyd â chofrestrau ar gyfer y plant a'r staff. Mae gan y bobl sy'n rhedeg y gwasanaeth fesurau a pholisïau ar waith i sicrhau eu bod yn cyflawni eu cyfrifoldebau mewn perthynas â diogelwch y plant yn eu gofal. Maent yn cadw rhestr wirio o asesiadau risg dyddiol ar gyfer yr holl ardaloedd dan do ac awyr agored. Mae diogelwch yr adeilad, gwiriadau tân a thystysgrifau yn ddilys ac yn dangos eu hymwybyddiaeth o ofynion diogelwch. Darparodd y bobl sy'n rhedeg y gwasanaeth gopïau o'r tystysgrifau diogelwch yn dilyn yr ymweliad.

Ar y cyfan, mae'r bobl sy'n rhedeg y gwasanaeth yn sicrhau bod yr adnoddau chwarae yn cael eu harddangos a'u cyflwyno o fewn cyrraedd y plant. Er enghraifft, bwrdd chwarae darnau rhydd, cornel chwarae rôl cartref, deunyddiau celf a chrefft ac ystafell synhwyraidd. Mae gosodiadau a dodrefn priodol o uchder addas i blant, fel y toiledau, sinciau, byrddau a chadeiriau. Mae'r ardal chwarae sydd ar gael i'r plant yn gyfyngedig ac nid yw cynllun na gosodiad yr ystafell bob amser yn rhoi lle i'r plant symud o gwmpas yn rhydd. Gellir cyrraedd toiledau'r plant yn uniongyrchol o'r tu allan i'r ystafell chwarae. Mae cegin ar gael ar gyfer y lleoliad er mwyn paratoi bwyd.

Mae'r staff yn sicrhau bod yr amgylchedd yn adlewyrchu gwaith celf y mae'r plant wedi'i greu. Gwnaethom drafod dathlu gwahanol ddiwylliannau a hybu amrywiaeth gyda'r person â chyfrifoldeb. Rhoddodd wybod i ni eu bod yn dathlu'r Flwyddyn Newydd Tsieineaidd, Diwali a dathliadau diwylliannol eraill gyda'r plant. Mae hefyd yn sicrhau bod darnau rhydd ac adnoddau cynaliadwy ar gael i'r plant.

Mae'r bobl sy'n rhedeg y gwasanaeth yn sicrhau y gall y plant ddefnyddio ardal awyr agored benodedig sy'n cynnig rhai cyfleoedd i'r plant archwilio. Maent yn sicrhau bod y plant yn defnyddio'r ardaloedd hyn yn rheolaidd. Mae'n bosibl bod yr ardaloedd hyn yn cynnig cyfleoedd diddorol i'r plant. Er enghraifft, cegin fwd, chwarae dŵr a thywod a lle i'r plant feithrin eu sgiliau echddygol manwl. Fodd bynnag, ar ddiwrnod yr ymweliad, roedd y diffyg cynllunio yn golygu nad oedd yr ardaloedd hyn wedi'u gosod yn llawn er mwyn i'r

plant eu defnyddio'n rhydd, er enghraifft nid oedd yr hambwrdd tywod yn barod i'w ddefnyddio ac nid oedd y deunyddiau gwneud marciau ar gael yn rhwydd ar gyfer y byrddau gwneud marciau a oedd yn cael eu harddangos.

| **Arweinyddiaeth a Rheolaeth** | **Digonol** |
|---|---|

Mae gan y bobl sy'n rhedeg y gwasanaeth wybodaeth ddigonol am eu cyfrifoldebau rheoliadol. Maent yn sicrhau bod polisïau perthnasol ar waith a'u bod yn gyfredol. Mae'r bobl sy'n rhedeg y gwasanaeth yn sicrhau bod y dogfennu gofynnol ar waith. Gwnaethom edrych ar ffeiliau'r plant a gwelsom fod pob caniatâd yn ei le. Cafodd y datganiad o ddiben ei ddiweddaru yn ystod yr ymweliad i gynnwys gwybodaeth am gyfleusterau ac mae bellach yn cynnwys yr holl wybodaeth sy'n ofynnol gan y Safonau Gofynnol Cenedlaethol. Mae'r person â chyfrifoldeb yn sicrhau bod y cofrestrau dyddiol yn adlewyrchu'r nifer o blant a staff sy'n bresennol. Mae'r cofnodion hyn yn dangos bod y cymarebau yn gywir ac y cydymffurfir â nhw. Fodd bynnag, ar brynhawn yr ymweliad, nid oedd y person a adawyd i reoli'r lleoliad yn meddu ar y cymwysterau na'r profiad gofynnol perthnasol yn unol â'r rheoliadau a'r Safonau Gofynnol Cenedlaethol. Ni chafodd hyn effaith negyddol ar y ffordd roedd y lleoliad yn cael ei redeg yn ystod yr ymweliad arolygu. Fodd bynnag, nodir y maes hwn fel maes i'w wella, ac rydym yn disgwyl i'r darparwr weithredu. Dywedodd y bobl sy'n rhedeg y gwasanaeth wrthym eu bod wedi wynebu anawsterau staffio. Nid yw'r bobl sy'n rhedeg y gwasanaeth yn rhoi gwybod i Arolygiaeth Gofal Cymru (AGC) am ddigwyddiadau o bwys bob amser, er enghraifft pan gafodd y lleoliad ei gau. Cyflwynwyd hysbysiad yn dilyn yr ymweliad.

Mae'r bobl sy'n rhedeg y gwasanaeth yn sicrhau bod trefniadau ar waith os bydd angen cymorth neu gefnogaeth arnynt gan staff wrth gefn, ac roedd hyn yn amlwg yn ystod yr ymweliad. Maent wedi sicrhau bod gwiriadau addasrwydd staff yn cael eu cwblhau cyn iddynt ddechrau gweithio yn y lleoliad. Mae'r bobl sy'n rhedeg y gwasanaeth wedi sicrhau bod gwiriadau Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd pobl yn y gwasanaeth yn gyfredol. Mae cofnodion damweiniau a digwyddiadau ar waith a chaiff y rhain eu rhannu â'r rhieni, ond nid yw pob cofnod yn cynnwys llofnod y rhiant. Gwnaethom drafod hyn â'r arweinydd a dywedodd wrthym fod y plant yn gadael y lleoliad i fynd i'r ysgol a bod y rhieni yn cael gwybod am ddamweiniau neu ddigwyddiadau drwy'r ap neu ar lafar dros y ffôn.

Mae'r bobl sy'n rhedeg y gwasanaeth yn casglu adborth anffurfiol gan y plant ac yn rhannu holiaduron â'r rhieni. Caiff safbwyntiau'r staff eu trafod mewn cyfarfodydd un i un. Fodd bynnag, roedd yr adolygiad blynyddol o ansawdd y gofal a welsom yn ystod yr arolygiad yn ddogfen ddyblyg o'r adolygiad o'r flwyddyn flaenorol.

Mae'r unigolyn cyfrifol yn cynnal adolygiad blynyddol gyda'r person â chyfrifoldeb, a chaiff sesiynau goruchwylio un i un gyda'r staff eu cynnal. Rhannodd y bobl sy'n rhedeg y gwasanaeth gopïau pellach o'r arfarniadau a'r cofnodion goruchwylio ag AGC yn dilyn yr ymweliad. Roedd y staff y gwnaethom siarad â nhw yn ystod yr ymweliad yn teimlo bod cyfleoedd i gyfarfod a hyfforddi ar waith. Nodwyd hefyd eu bod yn teimlo eu bod yn cael eu cefnogi'n dda a'u bod yn hapus yn eu rolau.

Dywedodd y bobl sy'n rhedeg y gwasanaeth wrthym eu bod yn cyfathrebu â'r rhieni a'r gofalwyr ar lafar pan fyddant yn gollwng ac yn casglu'r plant. Maent hefyd yn rhannu gwybodaeth ar eu tudalen cyfryngau cymdeithasol a thrwy'r ap. Gwnaethom siarad â'r rhieni/gofalwyr yn ystod yr ymweliad ac roedd yr adborth yn gadarnhaol ar y cyfan.

Dywedwyd wrthym fod eu plant wedi setlo a'u bod yn mwynhau mynychu Cylch Meithrin Llangynnwr. Dywedwyd wrthym hefyd eu bod yn cael gwybodaeth am amser eu plant yn y lleoliad drwy ffotograffau a gaiff eu hanfon drwy'r ap. Gwnaethom drafod y broses o rannu gwybodaeth mewn perthynas â chynnydd a datblygiad y plant â'r bobl sy'n rhedeg y gwasanaeth a dywedwyd wrthym y caiff y wybodaeth hon ei rhannu os bydd gan y staff neu'r rhieni bryderon am ddatblygiad plentyn neu os bydd rhiant yn gofyn am gyfarfod. Maent hefyd yn darparu gwybodaeth am ddatblygiad y plant cyn iddynt ddechrau yn yr ysgol.

| Crynodeb o'r Achos o Ddiffyg Cydymffurfio | |
|---|---|
| **Statws** | **Ystyr pob un** |
| **Newydd** | Nodwyd yr achos hwn o ddiffyg cydymffurfio yn yr arolygiad hwn. |
| **Adolygwyd** | Adolygwyd cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn ond ni lwyddwyd i'w chyflawni. Mae'r dyddiad targed ar gyfer cydymffurfio yn y dyfodol a chaiff ei brofi yn ystod yr arolygiad nesaf. |
| **Heb Gyflawni** | Profwyd cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn ond ni lwyddwyd i'w chyflawni. |
| **Cyflawnwyd** | Profwyd cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn a llwyddwyd i'w chyflawni. |

Rydym yn ymateb i achosion o ddiffyg cydymffurfio â rheoliadau pan gaiff canlyniadau gwael i bobl, a/neu risg i lesiant pobl eu nodi drwy gyhoeddi Hysbysiad(au) Gweithredu â Blaenoriaeth.

Rhaid i'r darparwr gymryd camau ar unwaith i ymdrin â hyn a gwneud gwelliannau. Os bydd darparwyr yn methu â chymryd camau gweithredu â blaenoriaeth erbyn y dyddiad targed, gallwn uwchgyfeirio'r mater at Banel Gwella a Gorfodi.

| Hysbysiad(au) Gweithredu â Blaenoriaeth | | |
|---|---|---|
| Rheoliad | Crynodeb | Statws |
| Dd/G | Ni nodwyd unrhyw achosion o ddiffyg cydymffurfio o'r math hwn yn yr arolygiad hwn | Dd/G |

Lle byddwn yn canfod achosion o ddiffyg cydymffurfio â rheoliadau ond na chaiff unrhyw risg uniongyrchol na sylweddol i'r bobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth ei nodi, byddwn yn tynnu sylw atynt fel Meysydd i'w Gwella.

Rydym yn disgwyl i'r darparwr gymryd camau i unioni hyn, a byddwn yn ystyried y mater hwn eto yn ystod yr arolygiad nesaf.

| Maes i'w Wella/Meysydd i'w Gwella | | |
|---|---|---|
| Rheoliad | Crynodeb | Statws |
| 27 | Nid yw'r darparwr yn cydymffurfio gan nad yw'r aelod o staff a adawyd i fod yn gyfrifol am y plant yn meddu ar gymhwyster gofal plant ar hyn o bryd nac yn meddu ar ddwy flynedd o brofiad yn unol â'r safonau a'r gofynion rheoleiddiol. | Newydd |

Lle byddwn yn canfod nad yw'r darparwr yn cyrraedd y Safonau Gofynnol Cenedlaethol ar gyfer Gofal Plant Rheoleiddiedig ond nad oes unrhyw risg uniongyrchol na sylweddol i'r bobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth, rydym yn tynnu sylw at yr enghreifftiau hyn fel Argymhellion i Gyrraedd y Safonau Gofynnol Cenedlaethol.

Rydym yn disgwyl i'r darparwr weithredu i ymdrin â'r rhain, a byddwn yn eu hystyried yn yr arolygiad nesaf.

| Safonau Gofynnol Cenedlaethol | |
|---|---|
| Safon | Argymhelliad/argymhellion |
| Safon 21 – Hysbysiadau am ddigwyddiadau o bwys | Sicrhau eich bod yn rhoi gwybod i Arolygiaeth Gofal Cymru am bob digwyddiad o bwys. |
| Safon 22 – Yr amgylchedd | Sicrhau bod yr amgylchedd yn cael ei gynnal a'i gadw i safon addas o ran addurniadau. |
| Safon 24 – Diogelwch | Sicrhau bod ymarferion tân ar waith ar gyfer pob plentyn sy'n mynychu'r gwasanaeth. |
| Safon 7 – Cyfleoedd i chwarae a dysgu | Sicrhau bod adnoddau ar gael yn hawdd i'r plant ym mhob ardal chwarae. |
| Safon 6 – Gweithio mewn partneriaeth â rhieni | Sicrhau bod y rhieni yn cael y wybodaeth ddiweddaraf am weithgareddau eu plentyn, ei gyflawniadau a'i ddatblygiad a'u bod yn cael eu cynnwys yn llawn. |
| Safon 22 – Yr amgylchedd | Sicrhau bod yr amgylchedd dan do yn darparu lle digonol i'r plant symud a bod pob ardal yn hygyrch i'r plant. |
| Safon 24 – Diogelwch | Datblygu asesiadau risg ymhellach i gynnwys ardaloedd chwarae a gweithgareddau yn yr awyr agored. |
| Safon 5 – Cofnodion | Sicrhau bod y cofnodion damweiniau a digwyddiadau yn adlewyrchu'r camau a gymerwyd i roi gwybod i'r rhieni/gwarchodwyr. |
| Safon 18 – Sicrhau ansawdd | Sicrhau bod yr adolygiad o ansawdd y gofal yn cael ei ddiweddaru bob blwyddyn. |

| Graddau | Ystyr y graddau |
|---|---|
| **Rhagorol** | Gwasanaethau sy'n ymrwymedig i welliant parhaus ac sydd â llawer o gryfderau, gan gynnwys enghreifftiau arwyddocaol o ymarfer ac arloesi sy'n arwain y sector. Mae'r gwasanaethau hyn yn darparu gofal a chymorth o ansawdd uchel a gallant ddangos eu bod yn gwneud cyfraniad cadarn tuag at wella llesiant plant. |
| **Da** | Gwasanaethau sydd â chryfderau a heb unrhyw feysydd pwysig sydd angen eu gwella'n sylweddol. Maent yn rhagori ar y gofynion sylfaenol yn gyson, gan sicrhau canlyniadau cadarnhaol i blant a hybu eu llesiant yn rhagweithiol. |
| **Digonol** | Gwasanaethau lle mae mwy o gryfderau na meysydd i'w gwella. Maent yn ddiogel ac yn bodloni'r gofynion sylfaenol ond mae angen gwelliannau er mwyn hyrwyddo llesiant a gwella canlyniadau i blant. |
| **Gwael** | Gwasanaethau lle mae mwy o feysydd pwysig i'w gwella na chryfderau ac mae enghreifftiau arwyddocaol o ddiffyg cydymffurfio sy'n effeithio'n negyddol ar lesiant plant. Lle bydd gwasanaethau yn wael, byddwn yn cymryd camau gorfodi ac yn cyhoeddi hysbysiad diffyg cydymffurfio. |

**A oedd yr adroddiad hwn yn ddefnyddiol?**

Rydym am glywed eich barn a'ch profiadau o ddarllen ein hadroddiadau arolygu. Bydd hyn yn ein helpu i ddeall a yw ein hadroddiadau yn rhoi gwybodaeth glir a gwerthfawr i chi.

I rannu eich barn ar ein hadroddiadau, dilynwch y ddolen isod i gwblhau arolwg byr:

- Arolwg adroddiadau arolygu

Os hoffech roi adborth cyffredinol ar wasanaeth, ewch i'n tudalen Arolygon adborth.

**Dyddiad Cyhoeddi** 22/11/2024